# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**(YSTAFELL BWYLLGOR 1/2 – CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT)**

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 3 Medi 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd:** | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, S.K.Hunt, A.L.Thomas, A.N.Woolcock a/ac C.Williams |
| **Swyddogion yn bresennol:** | N.Pearce, S.Ball, M.Shaw, T.Davies, S.Evans a/ac T.Davies |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD**: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

2. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. **CAIS RHIF. P2019/5182 - STRYD OLIVE, ABERAFAN**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Newid defnydd o C3 i C4 (HMO 5 ystafell wely) - disgrifiad wedi'i ddiwygio ar 31 Gorffennaf 2019 yn 20, Stryd Olive, Aberafan, Port Talbot SA12 6EN) fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelodau'r ward lleol yn bresennol i gyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais rhif P2019/5182 yn unol ag argymhellion y swyddogion, yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. **APELIADAU Y PENDERFYNWYD ARNYNT - 22 GORFFENNAF TAN 26 AWST 2019**

**PENDERFYNWYD:** Cofnodi'r apêl ganlynol y penderfynwyd arni, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyf. yr apêl. A2019/5002

Estyniad ochr llawr cyntaf a newid defnydd y tir y tu ôl i'r eiddo i gwrtil preswyl (Apêl yn erbyn gosod amod) yn 83 Gerddi Brooklyn, Aberafan SA12 7PD.

Penderfyniad:

Gwrthod yr apêl

5. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 22 GORFFENNAF TAN 26 AWST 2019**

Derbyniodd aelodau restr o Geisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt rhwng 22 Gorffennaf a 26 Awst 2019, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**